**Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg**

**Cynnig Dysgu Proffesiynol 2023-2024**

Mae'r pecynnau hyfforddi craidd canlynol ar gael i **staff ym mhob ysgol** yn RhCT.

| Teitl y Cwrs | Disgrifiad o'r Cwrs | Fformat y Cwrs | Cynulleidfa Darged | Dyddiadau |
|---|---|---|---|---|
| **Ymateb i Ddigwyddiadau Critigol** | Bydd y cwrs yma'n helpu i wella dealltwriaeth uwch arweinwyr o natur digwyddiadau critigol, protocolau ar gyfer ymateb a strategaethau i gefnogi lles emosiynol eich cymunedau ysgol yn dilyn Digwyddiad Critigol. | 2.5 awr (wyneb yn wyneb) | Penaethiaid a'r Uwch Dîm Rheoli | Dydd Gwener 6 Hydref 2023 (9.30am-12pm)<br><br>Dydd Gwener 1 Mawrth 2024 (9.30am-12pm)<br><br>Dydd Mawrth 4 Mehefin 2024 (1pm-3.30pm) |
| **Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA)** | Mae'r prosiect Llythrennedd Emosiynol 6 diwrnod wedi'i ddylunio i wella gallu ysgolion i fod yn gefn i anghenion emosiynol eu disgyblion yn unol â'u hadnoddau eu hunain. Mae'n cydnabod bod plant a phobl ifainc yn dysgu'n well ac yn hapusach yn yr ysgol os yw eu hanghenion emosiynol yn cael sylw hefyd. | 6 x 6 awr (wyneb yn wyneb)<br><br>yn ogystal â<br><br>6 x 2 awr o oruchwyliaeth y flwyddyn | Cynorthwywyr Cymorth Dysgu / Cynorthwywyr Dysgu | **Dyddiadau Carfan Un (Tymor yr Hydref)**<br><br>1. 21 Medi 2023<br>2. 5 Hydref 2023<br>3. 19 Hydref 2023<br>4. 9 Tachwedd 2023<br>5. 23 Tachwedd 2023<br>6. 7 Rhagfyr 2023<br><br>**Dyddiadau Carfan Dau (Tymor y Gwanwyn)**<br><br>1. 17 Ionawr 2024<br>2. 1 Chwefror 2024<br>3. 8 Chwefror 2024<br>4. 22 Chwefror 2024<br>5. 7 Mawrth 2024 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | 6. 21 Mawrth 2024<br><br>**Dyddiadau Carfan Tri (Tymor yr Haf)**<br><br>1. 17 Ebrill 2024<br>2. 2 Mai 2024<br>3. 16 Mai 2024<br>4. 6 Mehefin 2024<br>5. 20 Mehefin 2024<br>6. 4 Gorffennaf 2024 |
| **EBSA: Osgoi'r Ysgol ar sail Emosiynol** | Bydd y cwrs yma'n ymdrin â sut mae osgoi'r ysgol ar sail emosiynol yn datblygu yn ogystal ag archwilio ystod o gamau syml y gall staff eu cymryd, ochr yn ochr â theuluoedd, i gynorthwyo plant i ddychwelyd i'r ysgol ac ymgysylltu'n rheolaidd ac yn ystyrlon. | 6 awr (wyneb yn wyneb) | Pob Aelod o Staff | 11 Hydref 2023 (9am-3pm)<br><br>28 Chwefror 2024 (9am-3pm)<br><br>15 Mai 2024 (9am-3pm) |
| **Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol (ELSA): Canllawiau Arfer Gorau i Reolwyr** | Bydd y sesiwn yn rhoi gwybodaeth, awgrymiadau a chyngor pwysig ar y ffordd orau o gyflwyno'r ymyriad Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol mewn ysgolion. | 2 awr (ar-lein) | Penaethiaid a'r Uwch Dîm Rheoli | 14 Medi 2023 (9.30am-11.30am)<br><br>11 Ionawr 2024 (9.30am-11.30am)<br><br>11 Ebrill 2024 (9.30am-11.30am) |
| **Cyflwyniad i Hyfforddiant Emosiynau** | Mae'r hyfforddiant yma'n cyflwyno Hyfforddiant Emosiynau fel dull perthynol o reoleiddio emosiynau mewn plant a phobl ifainc a dod i ben â ffrwydradau ymddygiadol. Mae'r cwrs yn cynnwys: beth yw Hyfforddiant Emosiynau, sut i | Wyneb yn wyneb | Pob Aelod o Staff | 6 Hydref 2023 (9am-12pm)<br><br>14 Mawrth 2024 (9am-12pm) |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddefnyddio Hyfforddiant Emosiynau a ble a phryd i ddefnyddio Hyfforddiant Emosiynau. | | | 1 Gorffennaf 2024 (9am-12pm) |
| **MELSA: Cynorthwywyr Cymorth Dysgu Cyfryngu** | Mae Cynorthwy-ydd Cymorth Dysgu Cyfryngu (MeLSA) yn gynorthwy-ydd cymorth dysgu hyfforddedig yn yr ysgol. Eu rôl yw cefnogi dysgu disgyblion. Maen nhw'n cael eu hyfforddi gan ddau seicolegydd addysg ac yn cael goruchwyliaeth grŵp barhaus.<br><br>Maen nhw wedi'u hyfforddi ar sut i helpu plentyn neu berson ifanc i ddod yn ddysgwr annibynnol. Maen nhw'n dysgu sgiliau dysgu cyfryngu i'w helpu i weithio gyda phlant a phobl ifainc. | 6 x 6 (wyneb yn wyneb)<br><br>ynghyd â<br><br>3 x 3 awr o oruchwyliaeth y flwyddyn | Pob Aelod o Staff | 8 Tachwedd 2023<br>15 Tachwedd 2023<br>22 Tachwedd 2023<br>29 Tachwedd 2023<br>6 Rhagfyr 2023<br>13 Rhagfyr 2023<br><br>16 Ebrill 2024<br>23 Ebrill 2024<br>30 Ebrill 2024<br>7 Mai 2024<br>14 Mai 2024<br>21 Mai 2024 |
| **Colled a Phrofedigaeth** | Bydd yr hyfforddiant yma'n canolbwyntio ar wella dealltwriaeth cyfranogwyr o ddamcaniaethau colled a phrofedigaeth a sut i fod yn gefn i blant a phobl ifainc mewn profedigaeth yn yr ysgolion. | 2 awr | Pob aelod o staff | 19 Hydref 2023 (10am-12pm)<br><br>31 Ionawr 2024 (10am-12pm)<br><br>10 Mehefin 2024 (1pm-3pm) |
| **Cyflwyniad i'r Model Lles PERMA** | Mae’r hyfforddiant yma'n archwilio model lles PERMA a’i gymhwysiad i gyflwyno ymagwedd ysgol gyfan at iechyd a lles emosiynol. | 2 awr | Uwch Dîm Rheoli Ymarferwyr Lles | Dydd Gwener 22 Medi 2023<br>Dydd Gwener 26 Ionawr 2024 |

**Mae modd cyflwyno'r pecynnau hyfforddi canlynol i ysgolion cyfan a/neu glystyrau yn Rhondda Cynon Taf.**

**Mae modd trafod fformat a chyflwyniad y sesiynau yma a chytuno arnyn nhw fel y bo'n briodol (cysylltwch â'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg am drafodaeth bellach)**

| Teitl | Disgrifiad | Hyd y Sesiwn | Cynulleidfa Darged |
|---|---|---|---|
| **Asesiad Dynamig** | Bydd y cwrs yma'n ymdrin â'r damcaniaethau sy'n sail i Asesiad Dynamig (AD) ac yn ystyried rhai o'r cysyniadau a'r dulliau sylfaenol allweddol sy'n ymwneud â rhoi AD ar waith mewn ysgol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Homunculi (Therapi Ymddygiad Gwybyddol ar gyfer Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig)** | Mae Dull Homunculi at Les Cymdeithasol ac Emosiynol yn rhaglen Therapi Ymddygiad Gwybyddol hyblyg ar gyfer pobl ifainc ag Awtistiaeth sy'n meithrin gwytnwch cymdeithasol ac emosiynol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Therapi Lego** | Mae therapi wedi'i seilio ar LEGO® yn fwy na dim ond chwarae gyda brics aml-liw. Mae'n rhaglen datblygiad cymdeithasol sy'n helpu plant a phobl ifainc i gyfathrebu ag eraill ac mae modd ei defnyddio gyda phlant sydd ag ystod eang o anghenion cyfathrebu, datblygiadol ac iechyd emosiynol. Mae'n eu helpu i uniaethu â'r byd o'u cwmpas, a chael eu harwain i fynd i'r afael â'u problemau a'u datrys. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Theori ac Ymarfer Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd** | Bwriad y cwrs yma yw rhoi gwybodaeth a dealltwriaeth i gyfranogwyr sy'n ymwneud ag Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd. Mae'r gweithgareddau fydd yn cael eu cynnwys yn annog myfyrdodau cyfranogwyr y mae modd eu rhoi ar waith yn ymarferol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| | | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Seicoleg Adnabod a Pherthnasoedd** | Mae'r cwrs yma'n darparu dealltwriaeth eang o ymchwil mewn meddwl cymdeithasol, hunaniaeth, dylanwad, perthnasoedd ac ymddygiad rhwng grwpiau gwahanol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Gwrando Gweithredol a Sgiliau Cyfathrebu** | Bydd yr hyfforddiant yma'n archwilio'r ffyrdd rydyn ni'n gwrando ac yn cyfathrebu, gydag esboniad damcaniaethol o 'wrando gweithredol', a'r hyn y mae'n ei olygu i fod yn wrandäwr gweithredol. Mae'r hyfforddiant yn tynnu sylw at sut y gall gwell cyfathrebu a gwrando gael effaith gadarnhaol ar eich swydd yn ogystal â'ch perthnasoedd ag eraill. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Deall Ymlyniad a Thrawma** | Bydd y cwrs hyfforddiant yma'n eich cyflwyno i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i theori ymlyniad a thrawma o ran plant a phobl ifainc. Nod y cwrs yw datblygu dealltwriaeth a gwybodaeth cyfranogwyr o sut mae trawma ac arddulliau ymlyniad yn datblygu, sut y gallai hyn effeithio ar blant a phobl ifainc, a darparu ffyrdd i'w cynorthwyo. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Swyddogaeth y Cof wrth Ddysgu** | Mae'r cof yn hanfodol i adeiladu dysgu. Bydd y cwrs yma'n archwilio'r gwahanol fathau o gof a'r rhan y mae pob un yn ei chwarae o ran dysgu. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Seicoleg Cymhelliant** | Bydd y cwrs hyfforddiant yma'n eich cyflwyno i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i seicoleg cymhelliant. Archwilio'r gwahanol fathau o gymhelliant a sut mae pobl yn cael eu cymell. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Dulliau sy'n Canolbwyntio ar Atebion** | Mae'r cwrs yma'n darparu trosolwg damcaniaethol o Therapi Byr sy'n Canolbwyntio ar Atebion (SFBT) a'i dechnegau sylfaenol. Bydd cyfranogwyr yn archwilio'r defnydd o ddulliau sy'n Canolbwyntio ar Atebion gyda disgyblion unigol a systemau ysgol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |
| **Ymholi Gwerthfawrogol** | Mae'r cwrs yma'n cyflwyno Ymchwilio Gwerthfawrogol (AI) fel dull cadarnhaol sy'n seiliedig ar gryfderau tuag at ddatblygu arweinyddiaeth a newid sefydliadol. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Pwysigrwydd Cwsg** | Mae'r cwrs yma'n ymdrin â damcaniaethau a chysyniadau seicolegol allweddol sy'n sail i bwysigrwydd cwsg i ddatblygiad seicolegol iach a'r gweithrediad emosiynol, cymdeithasol a gwybyddol gorau posibl. | 2-3 awr | Pob aelod o staff |

**Mae'r cyrsiau hyfforddiant canlynol i gyd yn <u>Hyfforddiant Fideo E-ddysgu</u> sy'n cael eu cynnal ar RCT Source.**

**Mae'r rhain am ddim i holl staff ysgolion RhCT ac mae modd eu cyrchu ar unrhyw adeg (mae'r cyrsiau'n amrywio o ran hyd).**

| **Teitl** | **Disgrifiad** | **Dull Cyflwyno** | **Cynulleidfa Darged** |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad i Seicoleg Lluniad Personol** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n eich cyflwyno chi i'r prif syniadau a damcaniaethau sy'n sail i Seicoleg Lluniad Personol (PCP). Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol i'ch cynorthwyo chi yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Dulliau Drama ar gyfer Llythrennedd Emosiynol** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol sy'n defnyddio drama, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae'r therapydd drama Rosie Bufton yn trafod manteision defnyddio dulliau drama wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Dulliau Dawns a Symud ar gyfer Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n cyflwyno'r prif syniadau a damcaniaethau ynghylch Therapi Symudiad Dawns (DMT). Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o gymwysiadau ymarferol i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Dulliau Ioga ar gyfer Llythrennedd Emosiynol** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gan ddefnyddio Ioga, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol. Mae Michael Chissick yn dangos manteision defnyddio Ioga wrth weithio gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyflwyniad i'r Gwasanaeth Seicoleg Addysg ar gyfer Cydlynwyr Anghenion Dysgu Ychwanegol** | Bydd yr adran yma'n rhoi gwell dealltwriaeth i chi o swyddogaeth y Seicolegydd Addysg a sut rydyn ni'n darparu ein gwasanaeth i roi cymorth i ysgolion. | Cynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Defnyddio Offerynnau Cerdd i Roi Cymorth i Blant a Phobl Ifainc** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n trafod ac yn arddangos amrywiaeth o weithgareddau ymarferol gan ddefnyddio offerynnau cerdd, i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Cyflwyniad i 'Biophilia' a Dulliau Dysgu yn yr Awyr Agored** | Mae'r cwrs e-ddysgu yma'n rhoi cyflwyniad i chi i brif syniadau a damcaniaethau Biophilia a sut i ymgorffori dulliau dysgu yn yr awyr agored yn eich gwaith fel Cynorthwy-ydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |
| **Defnyddio Straeon i Feithrin Llythrennedd Emosiynol** | Bydd y cwrs e-ddysgu yma'n rhoi cyflwyniad i chi i'r prif syniadau a damcaniaethau y tu ôl i adrodd straeon fel ffordd o ddatblygu llythrennedd emosiynol mewn plant a phobl ifainc. Bydd hefyd yn trafod ac yn arddangos amrywiaeth o ffyrdd y mae'n berthnasol yn y byd go iawn i'ch cynorthwyo yn eich gwaith gyda phlant a phobl ifainc. | Fideo wedi'i recordio ymlaen llaw ar RCT Source | Cynorthwywyr Cymorth Llythrennedd Emosiynol / Holl Staff |